

Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ffestiniog



Crynodeb (Ionawr 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1** Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.
- 1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.
- 1.3** Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:
 - Beth sy'n dda am yr ardal?
 - Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
 - Pa newidiadau fydddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fyddai'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?
- 1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.
- 1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **10** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau Lleol Bro Ffestiniog.
- 1.6** Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi eu cynnal gyda phobl ifanc yr ardal drwy'r gwasanaeth ieuencid. Ym Mro Ffestiniog roedd yr ymateb a theimladau am yr ardal yn negyddol, er enghraifft, "Dim byd yn dda" "Just dim byd yma nagoes" "no way dwi'n dewis byw yma." Criw bach yn unig a gafodd ei holi ac mae hefyd yn bosib bod digwyddiadau lleol wedi effeithio ar deimladau ar y pryd.

2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd ymatebwyr Bro Ffestiniog yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol	8
Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad	7
Yr iaith / diwylliant Gymraeg	6
Grwpiau a mentrau gweithgar yn yr ardal	2
Hanes a diwylliant	2
Mwynderau - siopau, garej a busnesau lleol	1
Cyfleusterau twristiaeth e.e. Hostel	1
Neuadd gymunedol fawr	1
Cysylltiadau ffyrdd da	1
Clybiau chwaraeon	1
Prosiectau cymunedol arloesol	1
Ardal ddiogel	1
Canolfan iechyd	1
Amaethyddiaeth draddodiadol yn parhau	1
Ysgolion	1
Pob dim	1

3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd ymatebwyr Bro Ffestiniog yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Nifer o dai haf yn yr ardal a phrinder stoc dai i bobl leol	7
Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser	7
Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol	6
Ardal ddifreintiedig a thlodi tanwydd	6
Dim byd i gadw'r ifanc yn y fro	4
Pryderon am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal	3
Economi leol – diffyg adnoddau a siopau	3
Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol	2
Edrychiad y Stryd Fawr	2
Cyngor Gwynedd wedi anghofio am yr ardal / dim ymwybyddiaeth o anghenion lleol	1
Bygythiadau i'r iaith	1
Problemau gyda'r ffyrdd	1
Meddylfryd y gymuned	1
Safon addysg	1
Dim gwasanaeth ieuencid a blynyddoedd cynnar	1
Diffyg adnoddau diwylliannol	1
Sbwriel yn yr ardal	1

4. Pa newidiadau fydddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fyddai'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ffestiniog am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Mwy o waith a swyddi cyflog uchel / llawn amser	7
Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau ôl troed carbon	5
Mwy o siopau a mwynderau lleol	5
Taclo'r sefyllfa dai	4
Gwell trafndiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws	3
Iaith a diwylliant yn dal i ffynnu	3
Taclo tlodi tanwydd	3
Mwy o gyfleoedd a chyfleusterau i blant a phobl ifanc	3
Pryderon am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal	2
Twristiaeth gynaliadwy er budd y gymuned leol	2
Addysg ac ysgolion	2
Delwedd y Stryd Fawr	2
Cymorth i fusnesau sefydlu a ffynnu	2
Datblygu'r Ganolfan yn y dref	1
Mwy o gwmnïau a mentrau cydweithredol	1
Gwleidyddol - Cymru annibynnol	1
Annog byd natur er mwyn lles corfforol a meddyliol	1
Yr ardal yn hunangynhaliol e.e. cadwyn fwyd	1
Cymorth i gynnal digwyddiadau	1
Gofal plant fforddiadwy	1
Canolfan chwaraeon yn yr ardal	1

5. Cwestiynau ychwanegol

5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu angen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Bro Ffestiniog:

- Cyngor Gwynedd
- Cwmni Bro Ffestiniog
- Dref Werdd
- Y Parc Cenedlaethol
- CADW
- Y Theatr
- Rhanddeiliaid y Pwerdy
- Antur Stiniog
- Bwrdd Iechyd Cyhoeddus
- Colegau/Prifysgolion
- Cyngorau Cymuned / Tref
- Llywodraeth Cymru
- Y Ganolfan
- Cymdeithasau Tai
- Coleg Harlech
- Cwmni Trawsnewid
- Mudiadau lleol a mentrau cymdeithasol
- Fforwm Busnesau Lleol
- Gwasanaeth cymdeithasol

5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma ym Mro Ffestiniog:

- Mae Cwmni Bro Ffestiniog wedi ymgynghori yn y gymuned yn ddiweddar am eu cynlluniau nhw. Yn gyffredinol, roedd priodoleddau cadarnhaol yr ardal yn canolbwyntio mwy ar gymuned, teulu, treftadaeth, hanes, natur, ac ati. Roedd priodoleddau negyddol yn canolbwyntio mwy ar economi, cyfleoedd, adnoddau, tai, ac ati. Mae'r Cwmni wedi rhannu ymatebion cychwynnol y gwaith gyda ni.
- Ambell i ymgynghoriad ar-lein yn bennaf wedi cael ei wneud gan Gyngor Gwynedd, megis bysyst trydanol cymunedol ac am ardaloedd o fewn Gwynedd.